The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 Y Sgwâr
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: Wylfa@pins.gsi.gov.uk

At Bartïon â Buddiant, Partïon Statudol a Phersonau Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010007

Dyddiad: 6 Tachwedd 2018

Annwyl Syr/ Madam

**Deddf Cynllunio 2008 – Adran 89 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 – Rheol 8**

**Cais gan Horizon Nuclear Power Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Gorsaf Pŵer Niwclear Wylfa Newydd**

**Amserlen yr Archwiliad a'r weithdrefn a hysbysiad o wrandawiadau**

Mae'r llythyr hwn yn rhoi Amserlen yr Archwiliad, manylion cyhoeddi Cwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio a gwybodaeth bwysig arall ynghylch yr Archwiliad.

Gellir defnyddio'r ddolen ganlynol i ddod o hyd i'r holl ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn, gan gynnwys cofnod o'r Cyfarfod Rhagarweiniol a recordiad sain a wnaed yn y cyfarfod hwnnw, ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol:

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/gorsaf-bwer-niwclear-wylfa-newydd/

**Penderfyniadau Gweithdrefnol**

Atodir Amserlen derfynol yr Archwiliad yn **Atodiad A**.
Mae hon yn disodli'r amserlen ddrafft a gynhwyswyd yn y llythyr Rheol 6 dyddiedig 25 Medi 2018[1]. Wrth gwblhau Amserlen yr Archwiliad, rydym wedi ceisio cynnwys ceisiadau ac awgrymiadau a wnaed yn y Cyfarfod Rhagarweiniol ac mewn sylwadau a gyflwynwyd cyn y cyfarfod hwnnw.

[1] Eich gwahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Noder bod Amserlen yr Archwiliad yn cynnwys nifer o derfynau amser i'r Arolygiaeth Gynllunio dderbyn gwybodaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r terfynau amser yn cyfeirio at 23:59, fodd bynnag, mae rhai ohonynt yn nodi hanner dydd (12 hanner dydd) ar y dyddiad a nodir. Gwnewch yn siŵr y bydd cyflwyniadau'n cyrraedd erbyn y terfyn amser. Os na fyddwch yn cyflwyno'ch cyflwyniadau erbyn y dyddiadau a nodir yn yr amserlen, mae'n bosibl y byddwn yn eu hanwybyddu.

Gofynnwn i Bartïon â Buddiant, lle bo hynny'n ymarferol, anfon copïau electronig o'u cyflwyniad fel atodiad e-bost at Wylfa@pins.gsi.gov.uk ar neu cyn y terfyn amser perthnasol. Dylid labelu atodiadau electronig yn glir â theitl y pwnc ac ni ddylent fod yn fwy na 12MB ar gyfer pob neges e-bost. Nid yw darparu dolenni i wefannau lle gellir gweld eich cyflwyniadau yn dderbyniol. Rhaid gwneud pob cyflwyniad mewn fformat y gellir ei weld yn llawn ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol. Dylai unrhyw gyflwyniadau sy'n fwy na 1,500 o eiriau gynnwys crynodeb; ni ddylai'r crynodeb hwn fod yn fwy na 10% o'r testun gwreiddiol.

Os byddwn o'r farn y bydd angen amrywio Amserlen yr Archwiliad yn ystod yr Archwiliad, anfonir hysbysiad at Bartïon â Buddiant a Phersonau Eraill[2] a wahoddwyd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn unig. Cyhoeddir y newidiadau ar dudalennau'r prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

Mae **Atodiad B** yn cynnwys manylion ac eglurhadau pwysig ynghylch Penderfyniadau Gweithdrefnol eraill a wnaed gennym yn dilyn y Cyfarfod Rhagarweiniol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cwestiynau Ysgrifenedig;
- Datganiadau Tir Cyffredin;
- Adroddiadau ar yr Effaith Leol;
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd;
- Hysbysiadau o Wrandawiadau; a
- Archwiliad Safle â Chwmni.

## Sylwadau Ysgrifenedig

Nawr, gwahoddir pob Parti â Buddiant i gyflwyno Sylwadau Ysgrifenedig ac unrhyw sylwadau ar y Sylwadau Perthnasol a gyflwynwyd eisoes. Dylid cyflwyno'r rhain erbyn **dydd Mawrth 4 Rhagfyr 2018** (Terfyn Amser 2 yn Amserlen yr Archwiliad, **Atodiad A**).

Mae Sylwadau Ysgrifenedig yn gallu ymdrin ag unrhyw fater perthnasol ac ni chânt eu cyfyngu i'r materion a osodir allan yn ein Hasesiad Cychwynnol o Brif Faterion a drafodwyd yn y Cyfarfod Rhagarweiniol ac a gynhwysir yn ein llythyr Rheol 6[3]. Ni chânt eu cyfyngu ychwaith i'r hyn sydd yn ein Cwestiynau Ysgrifenedig (gweler y pennawd nesaf, isod).

---

[2] Mae Personau Eraill yn bersonau y dewisom eu gwahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol, yn ogystal â'r personau rhagnodedig a restrir yn adran 88(3) Deddf Cynllunio 2008 – gweler 'Eich statws yn yr Archwiliad a hysbysiadau i ddod' isod

[3] https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010007/EN010007-001968-WYLF%20-%20180921%20-%20Holding%20document%20for%20rule%206%20letter.pdf

Rhaid i unrhyw berson, ac eithrio'r Ymgeisydd, sy'n cyflwyno Sylwadau Ysgrifenedig, nodi'r rhannau hynny o'r cais y maent yn cytuno â hwy a'r rhannau hynny nad ydynt yn cytuno â hwy, gan esbonio'r rhesymau pam[4]. Hefyd, dylai Partïon â Buddiant ddarparu gyda'u Sylwadau Ysgrifenedig "*y data, y fethodoleg a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i gefnogi eu cyflwyniadau*" [5].

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gofyn am sylwadau ysgrifenedig pellach ar adegau gwahanol yn ystod yr Archwiliad.

Mae croeso i chi wneud sylwadau ysgrifenedig yn Gymraeg neu Saesneg ac ymateb i gwestiynau yn Gymraeg neu Saesneg ar unrhyw adeg yn ystod yr Arholiad.

Dylai unrhyw Sylwadau Ysgrifenedig, ac unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig pellach y gofynnwyd amdanynt gan yr Awdurdod Archwilio ystod yr Archwiliad sy'n fwy na 1,500 o eiriau ddod â chrynodeb na ddylai fod yn fwy na 10% o'r testun gwreiddiol. Dylai'r crynodeb nodi ffeithiau allweddol y cyflwyniad ysgrifenedig a rhaid iddo fod yn gynrychioliadol o'r cyflwyniad a wnaed.

**Cwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio**

Rydym wedi crynhoi'r Cwestiynau Ysgrifenedig ynghylch y cais a'r sylwadau a dderbyniwyd hyd yn hyn. Cyhoeddir y cwestiynau hyn ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol a gellir cael mynediad iddynt drwy'r ddolen ganlynol:

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010007-002101

Rhaid i atebion i'n Cwestiynau Ysgrifenedig gael eu darparu erbyn **Terfyn Amser 2** yn Amserlen yr Archwiliad (**Atodiad A**).

Os ydych angen copi caled o'n Cwestiynau Ysgrifenedig, cysylltwch â'r Tîm Achos, a fydd yn anfon copi atoch.

**Gwrandawiadau ac Archwiliad Safle â Chwmni**

Rydym wedi penderfynu cynnal cyfres o wrandawiadau ym mis Ionawr a mis Mawrth 2019. Rhoddir hysbysiad o ddyddiadau, amserau a lleoliadau gwrandawiadau mis Ionawr yn **Atodiad C** ynghyd â gwybodaeth bwysig arall am y digwyddiadau hyn, gan gynnwys manylion am yr hyn y dylai Partïon â Buddiant ei gynnwys mewn cais i gael eu clywed mewn gwrandawiad a'r weithdrefn a ddilynir mewn gwrandawiadau.

Rhoddir hysbysiad ysgrifenedig o amserau, dyddiadau a lleoliadau a gadarnheir ar gyfer gwrandawiadau mis Mawrth i'r holl Bartïon â Buddiant, gan roi o leiaf 21 diwrnod o rybudd, ac ar hyn o bryd, mae'r amserlen yn nodi y dylid eich hysbysu am y rhain **ddydd Mawrth 5 Chwefror 2019.**

---

[4] Yn ofynnol o dan Reol 10(4) Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010

[5] https://www.gov.uk/government/publications/planning-act-2008-examination-of-applications-for-development-consent

Amserlennir Archwiliadau Safle â Chwmni i'w cynnal **ddydd Mercher 13** a **dydd Iau 14 Chwefror 2019**, a cheir rhagor o wybodaeth am hyn hefyd yn **Atodiad B**.

**Argaeledd dogfennau cais a sylwadau a gyflwynwyd i'r Archwiliad**

Gellir defnyddio'r ddolen ganlynol i ddod o hyd i'r holl ddogfennaeth a'r recordiadau sain sy'n gysylltiedig ag archwiliad y cais hwn:

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/gorsaf-bwer-niwclear-wylfa-newydd/?ipcsection=docs

Mae **Atodiad Ch** yn rhoi manylion lleoliadau yng nghyffiniau'r Datblygiad a Gynigir lle gellir gweld holl ddogfennau'r Archwiliad yn electronig, am ddim.

Yn ogystal, ceir cyngor ar gyfer Partïon â Buddiant ynghylch sut i gael mynediad i Lyfrgell yr Archwiliad a sut i chwilio drwyddi yn **Atodiad Ch**.

**Eich statws yn yr Archwiliad a hysbysiadau i ddod**

Anfonwyd y llythyr hwn atoch gan eich bod chi (neu'r corff a gynrychiolwch) yn dod o fewn un o'r categorïau yn a88(3) Deddf Cynllunio 2008.

Os ydych wedi gwneud Sylwadau Perthnasol, neu os oes gennych fuddiant cyfreithiol yn y tir a effeithir gan y cais, neu os ydych yn awdurdod lleol perthnasol (cyfeirnodau sy'n dechrau gyda 2001, WPN, WYLF-AP neu WYLF-S57), mae gennych statws ffurfiol fel Parti â Buddiant yn yr Archwiliad.

Bydd Partïon â Buddiant yn derbyn hysbysiadau gan yr Arolygiaeth Gynllunio ynghylch yr Archwiliad drwy gydol y broses a gallant wneud sylwadau ysgrifenedig a llafar ynghylch y cais.

Os ydych yn Barti Statudol (h.y. corff a nodir yn y rheoliadau perthnasol sy'n ategu Deddf Cynllunio 2008) ond heb wneud Sylwadau Perthnasol (cyfeirnod sy'n dechrau gyda WYLF-SP) ni fyddwch yn Barti â Buddiant yn awtomatig. Fodd bynnag, gallwch roi gwybod i'r Arolygiaeth Gynllunio eich bod yn dymuno cael eich trin fel Parti â Buddiant ar unrhyw adeg yn ystod yr Archwiliad.

**Ni fydd** Partïon Statudol nad ydynt wedi gwneud Sylwadau Perthnasol ac nad ydynt yn rhoi gwybod i ni am eu dymuniad i ddod yn Barti â Buddiant yn derbyn unrhyw ohebiaeth bellach mewn perthynas ag archwilio'r cais hwn.

Os nad ydych yn Barti â Buddiant neu'n Barti Statudol (h.y. corff a nodir yn y rheoliadau perthnasol sy'n ategu Deddf Cynllunio 2008), rydych wedi derbyn y llythyr hwn oherwydd cawsoch eich gwahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol fel Person Arall[6] oherwydd roedd yn ymddangos i ni y gallai'r Archwiliad gael ei hysbysu gan eich cyfranogiad. Mae gan Bersonau Eraill rif cyfeirnod sy'n dechrau gyda 'WYLF-OP'. Os ydych yn Berson Arall, nid ydych yn Barti â Buddiant. Ni fyddwn yn ysgrifennu atoch

[6] Gweler troednodyn 2 ar dudalen 2 y llythyr hwn

eto ac eithrio i'ch hysbysu bod Amserlen yr Archwiliad wedi newid[7], neu os oes gennym gwestiynau penodol i chi yn ystod yr Archwiliad.

Os ydych yn ansicr ynghylch eich statws yn yr Archwiliad, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Achos gan ddefnyddio'r manylion ar frig y llythyr hwn. Mae gwybodaeth am statws ffurfiol Partïon â Buddiant a sut y gallwch gymryd rhan yn y broses wedi'i gosod allan yng nghyfres Nodiadau Cyngor 8 yr Arolygiaeth Gynllunio, sydd ar gael yma:

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/advice-notes/.

**Pwysig**: Os bydd angen i ragor o wybodaeth neu sylwadau ysgrifenedig (cais Rheol 17[8]) gael eu cyflwyno erbyn terfyn amser sydd wedi'i osod yn Amserlen yr Archwiliad yn **Atodiad A**, anfonir y cais at y personau hynny yr ystyriwn eu bod yn berthnasol i'r cais yn unig. Fodd bynnag, fe'i cyhoeddir ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol fel y bydd pob Parti â Buddiant yn gallu ymateb os ydynt yn teimlo ei fod yn berthnasol i'w buddiannau. Os byddwn yn ystyried hynny'n angenrheidiol, ychwanegir terfyn amser pellach at yr amserlen i roi cyfle i'r holl Bartïon â Buddiant gyflwyno sylwadau ar unrhyw ymatebion a dderbynnir.

## Dyfarnu costau

Dylech fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y caiff costau eu dyfarnu yn erbyn partïon sy'n ymddwyn yn afresymol.

I hwyluso dealltwriaeth o'r hyn y mae 'ymddygiad afresymol' yn ei olygu yng nghyd-destun Archwiliad o dan Ddeddf Cynllunio 2008, mae'n bosibl y bydd yn ddefnyddiol i chi ddarllen arweiniad y llywodraeth 'Dyfarnu costau: archwilio ceisiadau am orchmynion caniatâd datblygu' (Gorffennaf 2013)[9]. Mae er budd pawb i wybodaeth gael ei chyflwyno mor fuan â phosibl yn y broses archwilio, felly fe'ch anogir i wneud hynny.

## Rheoli gwybodaeth

Mae gan yr Arolygiaeth Gynllunio ymrwymiad i dryloywder. Felly, cyhoeddir yr holl wybodaeth a gyflwynir ar gyfer y prosiect hwn (os caiff ei derbyn gan yr Awdurdod Archwilio) a chofnod o unrhyw gyngor a ddarperir, yn:

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/gorsaf-bwer-niwclear-wylfa-newydd/

Yn ogystal, gellir gweld holl ddogfennau'r Archwiliad yn electronig yn y lleoliadau a restrir yn **Atodiad Ch**.

[7] Rheol 8(3) Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010
[8] Rheol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010
[9] https://www.gov.uk/government/publications/awards-of-costs-examinations-of-applications-for-development-consent-orders

Noder, er budd hwyluso archwiliad effeithiol a theg, ystyriwn fod cyhoeddi rhywfaint o wybodaeth bersonol yn angenrheidiol. I ddarganfod sut rydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r holl bartïon wrth archwilio'r cais hwn.

Yr eiddoch yn gywir

*Frances Fernandes*

**Aelod Arweiniol y Panel**

**Atodiadau**
**A** Amserlen yr Archwiliad
**B** Penderfyniadau Gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio
**C** Hysbysiad o wrandawiadau a cheisiadau i ymddangos a'r weithdrefn i'w dilyn mewn gwrandawiadau
**Ch** Argaeledd sylwadau a dogfennau'r cais

Nid yw'r ohebiaeth hon yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Gweler ein Polisi Preifatrwydd cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.

**Amserlen ar gyfer Archwilio'r cais**

Mae gan yr Awdurdod Archwilio ddyletswydd i gwblhau archwilio'r cais erbyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol.

Cynhelir archwiliad yr Awdurdod Archwilio o'r cais ar ffurf ystyried cyflwyniadau ysgrifenedig yn bennaf. Yn ogystal, bydd yr Awdurdod Archwilio'n ystyried unrhyw sylwadau llafar a wneir yn y Gwrandawiadau.

| **Eitem** | **Materion** | **Dyddiadau Dyledus** |
|---|---|---|
| 1 | Yr Awdurdod Archwilio'n cyhoeddi:<br>• Amserlen yr Archwiliad<br>• Cwestiynau Ysgrifenedig<br>• Hysbysiad o unrhyw wrandawiadau ac Archwiliad Safle â Chwmni | **Dydd Mawrth 6 Tachwedd 2018** |
| 2 | **Terfyn Amser 1**<br>Y terfyn amser ar gyfer derbyn:<br>• Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais<br>• Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) drafft diwygiedig yn dilyn y Gwrandawiad Mater Penodol ynglŷn â'r DCO drafft<br>• Sylwadau ar Sylwadau Perthnasol<br>• Crynodebau o'r holl Sylwadau Perthnasol sydd dros 1,500 o eiriau<br>• Cyflwyno dogfennau ôl-wrandawiad, gan gynnwys unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig o achos a wnaed ar lafar<br>• Ymatebion i unrhyw wybodaeth bellach a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio | **Dydd Mawrth 13 Tachwedd 2018** |
| 3 | **Terfyn Amser 2**<br>Y terfyn amser ar gyfer derbyn: | **Dydd Mawrth 4 Rhagfyr 2018** |

| | | |
|---|---|---|
| | • Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais<br>• Datganiadau Tir Cyffredin a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio<br>• Datganiad Cyffredinedd Datganiadau Tir Cyffredin<br>• Yr Atodlen Caffael Gorfodol<br>• Cyflwyno'r atodlen a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio mewn perthynas â buddiannau a Thir y Goron, gan gynnwys sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu cydymffurfio ag adran 135 Deddf Cynllunio 2008<br>• Cyflwyno'r atodlen a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio mewn perthynas â thir ymgymerwyr statudol a thir categori arbennig a diddymu hawliau a symud cyfarpar ymgymerwyr statudol ac ati, gan gynnwys sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu bodloni adrannau 127, 132 a 138 Deddf Cynllunio 2008<br>• Matricsau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yr Ymgeisydd wedi'u diweddaru i lywio'r Adroddiad ar Oblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES)<br>• Atodlen Lliniaru (sy'n dwyn ynghyd yr holl fesurau lliniaru ymgorfforedig mewn un ddogfen)<br>• Adroddiadau ar yr Effaith Leol gan unrhyw awdurdodau lleol<br>• Sylwadau Ysgrifenedig<br>• Ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio<br>• Sylwadau ar y dogfennau cais wedi'u diweddaru a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd i ymateb i gyngor Adran 51<br>• Sylwadau ar y wybodaeth a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd ar 17 Hydref 2018 mewn perthynas â'r Ceisiadau Blastio a'r Ceisiadau Newid Symudiadau Llongau Morol<br>• Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd ar ôl diwedd y cyfnod Sylwadau Perthnasol<br>• Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn Gwrandawiad Llawr Agored<br>• Hysbysiad o ddymuniad i wneud sylwadau ar lafar | |

| | | |
|---|---|---|
| | ar y DCO drafft mewn unrhyw Wrandawiad Mater Penodol<br><br>• Hysbysiad o ddymuniad i wneud sylwadau ar lafar mewn Gwrandawiad Mater Penodol<br><br>• Hysbysiad o ddymuniad i fynychu Archwiliad Safle â Chwmni<br><br>• Cyflwyno lleoliadau / safleoedd awgrymedig i'r Panel eu cynnwys fel rhan o'i Archwiliadau Safle Di-gwmni ac ar gyfer yr Archwiliadau Safle â Chwmni, gan gynnwys y materion i'w harsylwi yno, gwybodaeth ynghylch p'un a ellir cael mynediad i'r safle ar dir cyhoeddus a'r rhesymau dros enwebu pob safle.<br><br>• Ymatebion i unrhyw wybodaeth arall a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio | |
| 4 | **Terfyn Amser 3**<br><br>Terfyn amser i'r Awdurdod Archwilio dderbyn:<br><br>• Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais<br><br>• Atodlen Caffael Gorfodol wedi'i diweddaru<br><br>• Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau yn ymwneud â buddiannau a Thir y Goron a chydymffurfio ag adran 135 Deddf Cynllunio 2008 a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 2<br><br>• Sylwadau ar unrhyw gyflwyniad yn ymwneud â thir ymgymerwyr statudol a thir categori arbennig a diddymu hawliau a symud cyfarpar ymgymerwyr statudol ac ati<br><br>• Ymatebion yr Ymgeisydd i sylwadau ar y wybodaeth a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd ar y Ceisiadau Blastio a'r Ceisiadau Newid Symudiadau Llongau Morol<br><br>• Sylwadau ar yr Adroddiadau ar yr Effaith Leol<br><br>• Sylwadau ar yr Ymatebion Ysgrifenedig ac ymatebion i sylwadau ar y Sylwadau Perthnasol<br><br>• Sylwadau ar ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio<br><br>• Cytundeb a106 ddraft<br><br>• Ymatebion i unrhyw wybodaeth arall a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio | ***Hanner dydd,* Dydd Mawrth 18 Rhagfyr 2018** |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | Gwrandawiad Mater Penodol ar Faterion Economaidd-gymdeithasol a Traffig a Thrafnidiaeth | **Dydd Llun 7 Ionawr 2019** |
| 6 | Gwrandawiad Mater Penodol ar Faterion Economaidd-gymdeithasol a Traffig a Thrafnidiaeth | **Dydd Mawrth 8 Ionawr 2019** |
| 7 | Gwrandawiad Mater Penodol ar y DCO drafft | **Dydd Mercher 9 Ionawr 2019** |
| 8 | Gwrandawiad Mater Penodol ar Fioamrywiaeth/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd/Perygl Llifogydd (Morol a Daearol) | **Dydd Iau 10 Ionawr 2019** |
| 9 | Gwrandawiad Mater Penodol ar Fioamrywiaeth/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd/Perygl Llifogydd (Morol a Daearol) | **Dydd Gwener 11 Ionawr 2019** |
| 10 | **Terfyn Amser 4**<br>• Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais<br>• Atodlen Caffael Gorfodol wedi'i diweddaru<br>• Unrhyw gadarnhad ysgrifenedig sy'n ofynnol gan y Goron mewn perthynas ag adran 135 Deddf Cynllunio 2008 sy'n darparu cadarnhad dogfennol nad oes unrhyw fuddiannau'n gysylltiedig a/neu fod Awdurdod y Goron yn cydsynio<br>• Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn Gwrandawiad Caffael Gorfodol<br>• Cyflwyniadau ôl-wrandawiad gan gynnwys cyflwyniadau ysgrifenedig o achosion llafar<br>• Ymatebion i unrhyw wybodaeth arall a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio | **Dydd Iau 17 Ionawr 2019** |
| 11 | Yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi:<br>• Cwestiynau Ysgrifenedig Ychwanegol yr Awdurdod Archwilio (os cânt eu cyflwyno) | **Dydd Mercher 30 Ionawr 2019** |
| 12 | Yr Awdurdod Archwilio yn cyflwyno:<br>• Hysbysiad o unrhyw Wrandawiadau | **Dydd Mawrth 5 Chwefror 2019** |
| 13 | **Terfyn Amser 5**<br>Terfyn amser ar gyfer derbyn:<br>• Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais | ***Hanner dydd*** **Dydd Mawrth 12 Chwefror 2019** |

| | | |
|---|---|---|
| | • DCO drafft diwygiedig yr Ymgeisydd<br>• Atodlen Caffael Gorfodol wedi'i diweddaru<br>• Atodlen Lliniaru wedi'i diweddaru (sy'n dwyn ynghyd yr holl fesurau lliniaru ymgorfforedig mewn un ddogfen)<br>• Ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig Ychwanegol yr Awdurdod Archwilio (os yw'n berthnasol)<br>• Ymatebion i unrhyw wybodaeth arall a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio | |
| 14 | Dyddiad a gedwir ar gyfer Archwiliad Safle â Chwmni | **Dydd Mercher 13 Chwefror 2019** |
| 15 | Dyddiad a gedwir ar gyfer Archwiliad Safle â Chwmni | **Dydd Iau 14 Chwefror 2019** |
| 16 | **Terfyn Amser 6**<br>Terfyn amser ar gyfer derbyn:<br>• Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais<br>• Sylwadau ar ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig Ychwanegol yr Awdurdod Archwilio (os yw'n berthnasol)<br>• Datganiadau Tir Cyffredin terfynol<br>• Datganiad Cyffredinedd Datganiadau Tir Cyffredin terfynol<br>• Cytundeb a106 terfynol<br>• Ymatebion i unrhyw wybodaeth arall a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio | ***Hanner dydd*** **Dydd Mawrth 19 Chwefror 2019** |
| 17 | Gwrandawiad Caffael Gorfodol | **Dydd Llun 4 Mawrth 2019** |
| 18 | Gwrandawiad Caffael Gorfodol | **Dydd Mawrth 5 Mawrth 2019** |
| 19 | Dyddiad a gedwir ar gyfer Gwrandawiad Llawr Agored | **Dydd Mawrth 5 Mawrth 2019 (gyda'r** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **nos)** |
| 20 | Gwrandawiad Mater Penodol ar y DCO drafft | **Dydd Mercher 6 Mawrth 2019** |
| 21 | Gwrandawiad Mater Penodol ar Fioamrywiaeth | **Dydd Iau 7 Mawrth 2019** |
| 22 | Gwrandawiad Mater Penodol ar Ddylunio / Treftadaeth / Tirwedd a Gweledol / Sŵn / Llwch / Dirgryniad | **Dydd Gwener 8 Mawrth 2019** |
| 23 | **Terfyn Amser 7**<br><br>Terfyn amser ar gyfer derbyn:<br><br>• Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais<br><br>• Atodlen Lliniaru derfynol (sy'n dwyn ynghyd yr holl fesurau lliniaru ymgorfforedig mewn un ddogfen)<br><br>• Dogfennau ôl-wrandawiad, gan gynnwys unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig o achos a wnaed ar lafar<br><br>• Ymatebion i unrhyw wybodaeth arall a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio | **Dydd Iau 14 Mawrth 2019** |
| 24 | **Terfyn Amser 8**<br><br>Terfyn amser ar gyfer derbyn:<br><br>• Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais<br><br>• Atodlen Caffael Gorfodol Derfynol<br><br>• Fersiwn derfynol wedi'i diweddaru o'r Llyfr Cyfeirio<br><br>• DCO drafft terfynol i'w gyflwyno gan yr Ymgeisydd ar y templed Offeryn Statudol (OS) gyda'r adroddiad dilysu<br><br>• Cytundeb a106 wedi'i lofnodi<br><br>• Ymatebion i unrhyw wybodaeth arall a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio | **Dydd Llun 25 Mawrth 2019** |
| 25 | Yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi:<br><br>• Yr Adroddiad ar Oblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES) | **Dydd Mercher 27 Mawrth 2019** |
| 26 | Dyddiad a gedwir i'r Awdurdod Archwilio gyflwyno:<br><br>• Ceisiadau am unrhyw wybodaeth bellach o dan Reol | **Dydd Mercher 3 Ebrill 2019** |

| | | |
|---|---|---|
| | 17 (os yw'n ofynnol) | |
| 27 | **Terfyn Amser 9**<br><br>Terfyn amser ar gyfer derbyn:<br>• Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais<br>• Sylwadau ar y RIES<br>• Ymatebion i unrhyw wybodaeth arall a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio | **Dydd Mercher 10 Ebrill 2019** |
| 28 | **Terfyn Amser 10**<br><br>Terfyn amser ar gyfer derbyn:<br>• Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais<br>• Sylwadau ar y RIES<br>• Ymatebion i unrhyw wybodaeth arall a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio | **Dydd Mercher 17 Ebrill 2019** |
| 29 | Mae gan yr Awdurdod Archwilio ddyletswydd i gwblhau archwilio'r cais erbyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol. | **Dydd Mawrth 23 Ebrill 2019** |

**Dyddiadau cyhoeddi**

Cyhoeddir yr holl wybodaeth a dderbynnir ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y terfyn amser ar gyfer cyflwyniadau. Caiff Llyfrgell yr Archwiliad ei diweddaru'n rheolaidd drwy gydol yr Archwiliad a cheir mynediad iddi drwy dudalen y prosiect. Mae gan bob dogfen gyfeirnod unigryw. Defnyddir y cyfeirnodau hyn gan yr Awdurdod Archwilio yn ystod yr Archwiliad.

**Agendâu gwrandawiadau**

Ein nod yw cyhoeddi agenda ddrafft fanwl ar gyfer pob gwrandawiad ar dudalen y prosiect o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawiad; mae'n bosibl y bydd yr union agenda ar ddiwrnod pob gwrandawiad yn destun newid yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Archwilio.

**Adroddiad ar Oblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd**

Pan fo'r Ymgeisydd wedi darparu Adroddiad Dim Effeithiau Sylweddol neu Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gyda'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Archwilio'n penderfynu cyhoeddi Adroddiad ar Oblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES) yn ystod yr Archwiliad. Mae'r RIES yn gyfrif ffeithiol o'r wybodaeth a'r dystiolaeth a

ddarparwyd i’r Awdurdod Archwilio ynghylch materion yn ymwneud â’r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystod yr Archwiliad hyd at ddyddiad cyhoeddi’r RIES, er mwyn galluogi’r Ysgrifennydd Gwladol, fel awdurdod cymwys, i gyflawni ei ddyletswydd. Nid barn yr Awdurdod Archwilio ar faterion yn ymwneud â’r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ydyw. Gwahoddir sylwadau ar y RIES gan yr Awdurdod Archwilio a bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried fel rhan o Argymhelliad yr Awdurdod Archwilio i’r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol.

Mae’n bosibl y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dibynnu ar yr ymgynghoriad ar y RIES i fodloni ei rwymedigaethau o dan Reoliad 63(3) y Rheoliadau Cynefinoedd a/neu Reoliad 28 y Rheoliadau Morol Alltraeth.

**Penderfyniadau Gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio**

Mae'r Awdurdod Archwilio wedi gwneud y penderfyniadau gweithdrefnol canlynol o dan Adran 89(3) Deddf Cynllunio 2008:

**1. Amserlen yr Archwiliad**

Rydym wedi gwneud rhai newidiadau i Amserlen yr Archwiliad, fel y nodir yn Atodiad A, yng ngoleuni trafodaethau yn y Cyfarfod Rhagarweiniol.

**2. Cwestiynau Ysgrifenedig**

Cyfeirir rhai o'n Cwestiynau Ysgrifenedig ar Bartïon Statudol penodol nad ydynt, ar adeg ysgrifennu hyn, wedi cadarnhau eu bod yn dymuno dod yn Bartïon â Buddiant at ddibenion archwilio'r cais.

Bydd pob Parti Statudol perthnasol yn derbyn yr ohebiaeth hon a gofynnwn i bob un ohonynt wirio ein Cwestiynau Ysgrifenedig yn ofalus fel y gallant nodi ac ymateb i unrhyw gwestiynau a ofynnir iddynt.

Ni ddylai unrhyw barti deimlo eu bod yn cael eu rhwystro neu eu cyfyngu o ran ymateb i unrhyw gwestiwn a ofynnwn, hyd yn oed os yw cwestiwn wedi'i gyfeirio at barti arall.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, diffinnir Partïon Statudol fel y partïon a restrir yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Partïon â Buddiant a Darpariaethau Rhagnodedig Amrywiol) 2015[1].

**3. Datganiadau Tir Cyffredin**

Yr Ymgeisydd sy'n arwain y gwaith o baratoi Datganiadau Tir Cyffredin a bydd yn hwyluso'r Archwiliad os bydd pob Parti â Buddiant sy'n cymryd rhan yn y gwaith o baratoi Datganiadau Tir Cyffredin yn cysylltu ac yn cydweithredu â'r Ymgeisydd mewn perthynas â'u llunio. Gofynnir i fersiynau terfynol wedi'u llofnodi o'r Datganiadau Tir Cyffredin a restrir isod gael eu cyflwyno erbyn **dydd Mawrth 19 Chwefror 2019** (Terfyn Amser 6, **Atodiad A**).

**4. Adroddiadau ar yr Effaith Leol**

Mae Adroddiad ar yr Effaith Leol yn adroddiad ysgrifenedig sy'n rhoi manylion effaith debygol Datblygiad a Gynigir ar ardal awdurdod lleol (neu unrhyw ran o'r ardal honno). Am ragor o wybodaeth am bwysigrwydd a chynnwys Adroddiadau ar yr Effaith Leol, gweler ein Nodyn Cyngor Un: Adroddiadau ar yr Effaith Lleol.

Gwahoddir awdurdodau lleol i gyflwyno Adroddiadau ar yr Effaith Leol erbyn **dydd Mawrth 4 Rhagfyr 2018** (Terfyn Amser 2, **Atodiad A**).

**5. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

O dan y Rheoliadau Cynefinoedd[2], er mwyn hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol fel yr awdurdod cymwys, mae angen darparu gwybodaeth benodol a chynnal ymgynghoriad yn ystod yr

---

[1] https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/legislation/

[2] Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010

Archwiliad. Gofynnir i'r Ymgeisydd gyflwyno Matricsau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'u diweddaru i lywio'r Adroddiad ar Oblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES).

Rhaid darparu'r rhain erbyn **dydd Mawrth 4 Rhagfyr 2018** (Terfyn Amser 2, **Atodiad A**), ac yn dilyn hynny, bydd Amserlen yr Archwiliad yn darparu cyfleoedd a therfynau amser ar gyfer cyflwyno sylwadau.

**5. Hysbysiad o Wrandawiadau**

Mae'r Awdurdod Archwilio wedi gwneud penderfyniad gweithdrefnol i gynnal gwrandawiadau yn ystod yr **wythnos sy'n dechrau ar 7 Ionawr 2019 a'r wythnos sy'n dechrau ar 4 Mawrth 2019**. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Amserlen yr Archwiliad yn **Atodiad A** ac gellir dod o hyd i hysbysiad ffurfiol o wrandawiadau mis Ionawr yn **Atodiad Ch** y llythyr hwn, a chyhoeddir hysbysiad ffurfiol o amser, dyddiad a lleoliad gwrandawiadau mis Mawrth yn ddiweddarach yn yr archwiliad.

**6. Archwiliad Safle â Chwmni**

Neilltuwyd amser yn Amserlen yr Archwiliad ar gyfer cynnal Archwiliad Safle â Chwmni ar **ddydd Mercher 13 a dydd Iau 14 Chwefror 2019**. Yn ystod yr archwiliad, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Archwilio yn cynnal archwiliadau pellach heb gwmni ar safle'r gwaith a gynigir a leolir ar y tir a'r lleoliadau y cyfeirir atynt yn y dystiolaeth. Byddai hyn yn cael ei gyfyngu i leoliadau y gellir eu gweld o ffyrdd, llwybrau troed neu dir sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Fe'ch gwahoddir i awgrymu lleoliadau lle'r ydych o'r farn y byddai Archwiliad Safle â Chwmni yn cynorthwyo'r archwiliad.

Dylid darparu hysbysiad o ddymuniad i fynychu Archwiliad Safle â Chwmni, lleoliadau a awgrymir a chyfiawnhad erbyn **dydd Mawrth 4 Rhagfyr 2018** (Terfyn Amser 2, **Atodiad A**).

Dylai Partïon â Buddiant fod yn ymwybodol nad yw Archwiliadau Safle â Chwmni yn gyfle i wneud unrhyw sylwadau llafar i'r Awdurdod Archwilio ynghylch y Datblygiad a Gynigir. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn yn gwahodd cyfranogwyr i gyfeirio at nodweddion penodol neu safleoedd o ddiddordeb.

Bydd y Partïon â Buddiant sy'n mynychu'r Archwiliad Safle â Chwmni yn cynnwys cynrychiolwyr yr Ymgeisydd ac awdurdodau lleol, ynghyd â Phartïon â Buddiant eraill (neu eu cynrychiolwyr) ac mae'n bosibl y bydd angen cyfyngu ar nifer y bobl a ddaw gyda ni am resymau yn ymwneud â logisteg a diogelwch, ond dylai fod yn bosibl i drefnu i Bartïon â Buddiant (neu eu cynrychiolwyr) ymuno â'r archwiliad mewn lleoliadau penodol ar y daith.

**Hysbysiad o Wrandawiadau a cheisiadau i ymddangos a'r weithdrefn i'w dilyn mewn gwrandawiadau**

**Hysbysiad o Wrandawiadau o dan Adran 91 Deddf Cynllunio 2008**

Yn unol â Rheol 13(1) a (6) Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd), mae'n ofynnol i ni roi 21 diwrnod o gyfnod rhybudd ar gyfer gwrandawiadau. Gofynnwn i'r Ymgeisydd hysbysu a hysbysebu'n gyhoeddus y trefniadau ar gyfer gwrandawiadau heb fod yn hwyrach na 21 diwrnod cyn y gwrandawiadau.

| Dyddiad | Gwrandawiad | Amser | Lleoliad | Mynediad a Pharcio |
|---|---|---|---|---|
| **Dydd Llun 7 Ionawr 2019** | **Gwrandawiad Mater Penodol ar**<br><br>**Faterion Economaidd-gymdeithasol a Traffig a Thrafnidiaeth** | **Drysau'n Agor 09:00**<br><br>**Gwrandawiad yn dechrau 9:30** | **Gwesty Bae Trearddur Bae Trearddur Ynys Môn LL65 2UN** | **Parcio ar gael (am dâl)** |
| **Dydd Mawrth 8 Ionawr 2019** | **Gwrandawiad Mater Penodol ar**<br><br>**Faterion Economaidd-gymdeithasol a Traffig a Thrafnidiaeth** | **Drysau'n Agor 09:00**<br><br>**Gwrandawiad yn dechrau 9:30** | **Gwesty Bae Trearddur Bae Trearddur Ynys Môn LL65 2UN** | **Parcio ar gael (am dâl)** |
| **Dydd Mercher 9 Ionawr 2019** | **Gwrandawiad Mater Penodol ar**<br><br>**Y Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft** | **Drysau'n Agor 09:00**<br><br>**Gwrandawiad yn dechrau 9:30** | **Gwesty Bae Trearddur Bae Trearddur Ynys Môn LL65 2UN** | **Parcio ar gael (am dâl)** |
| **Dydd Iau 10 Ionawr 2019** | **Gwrandawiad Mater Penodol ar**<br><br>**Fioamrywiaeth / Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Perygl Llifogydd (Morol a Daearol)** | **Drysau'n Agor 09:00**<br><br>**Gwrandawiad yn dechrau 9:30** | **Gwesty Bae Trearddur Bae Trearddur Ynys Môn LL65 2UN** | **Parcio ar gael (am dâl)** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dydd Gwener 11 Ionawr 2019** | **Gwrandawiad Mater Penodol ar**<br><br>**Fioamrywiaeth / Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Perygl Llifogydd (Morol a Daearol)** | **Drysau'n Agor 09:00**<br><br>**Gwrandawiad yn dechrau 9:30** | **Gwesty Bae Trearddur Bae Trearddur Ynys Môn LL65 2UN** | **Parcio ar gael (am dâl)** |

**Ceisiadau i ymddangos mewn gwrandawiadau**

Mae'n ofynnol i Bartïon â Buddiant roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Awdurdod Archwilio os ydynt yn dymuno cymryd rhan mewn Gwrandawiad Llawr Agored neu Wrandawiad Caffael Gorfodol. Rydym yn atgoffa Partïon â Buddiant am y Penderfyniad Gweithdrefnol a gyhoeddwyd gyda'r llythyr Rheol 6 yn gofyn am hysbysiad gan Bartïon â Buddiant yn hyn o beth ar neu cyn **dydd Mawrth 4 Rhagfyr 2018** (Terfyn Amser 2, **Atodiad A**).

Os na dderbynnir unrhyw geisiadau ysgrifenedig i gymryd rhan mewn Gwrandawiad Llawr Agored neu Wrandawiad Caffael Gorfodol erbyn Terfyn Amser 2, nid yw'n ofynnol i ni gynnal gwrandawiad o'r fath; er mae'n bosibl y byddwn yn dewis gwneud hynny er gwaethaf hyn. Rydym wedi dewis cynnal Gwrandawiadau Mater Penodol ynghylch pynciau y mae angen, yn ein barn ni, eu harchwilio ar lafar.

Os yw Parti â Buddiant yn dymuno mynychu Gwrandawiad Llawr Agored neu Wrandawiad Mater Penodol, dylent nodi yn eu Sylwadau Perthnasol neu eu Sylwadau Ysgrifenedig pa bynciau y maent yn dymuno eu trafod yn y gwrandawiad. Yn yr un modd, dylai unrhyw Unigolyn yr Effeithir Arnynt sy'n dymuno mynychu Gwrandawiad Caffael Gorfodol nodi'n glir y lleiniau o dir y maent yn dymuno eu trafod.

Dylai hysbysiadau gan Bartïon â Buddiant mewn perthynas â'r uchod gael eu hanfon ar wahân i unrhyw sylwadau ysgrifenedig eraill, gyda theitl priodol i'n galluogi i nodi'n gyflym pa ddigwyddiad y mae'r hysbysiad yn cyfeirio ato.

Byddai o gymorth o ran rheolaeth gwrandawiadau mis Ionawr pe bai'r Partïon â Buddiant hynny'n gallu hysbysu'r Rheolwr Achos, Kay Sully, gan ddefnyddio'r cyfeiriad post neu e-bost yn y prif lythyr erbyn **dydd Iau 3 Ionawr 2019** os:

- Byddwch yn mynychu gwrandawiadau mis Ionawr
- Rydych yn dymuno siarad yn unrhyw un o wrandawiadau mis Ionawr
- Rhowch wybod i ni am unrhyw anghenion arbennig sydd gennych (e.e. mynediad i'r anabl, dolen glyw)

Bydd yr amser, y dyddiad a'r lleoliad a gadarnheir ar gyfer gwrandawiadau mis Mawrth yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig i bob Parti â Buddiant, gan roi o leiaf 21 diwrnod o rybudd,

ac ar hyn o bryd fe'i nodir yn yr amserlen i'ch hysbysu am y rhain **ddydd Mawrth 5 Chwefror 2019**.

## Gweithdrefn mewn gwrandawiadau

Mae'r weithdrefn i'w dilyn mewn gwrandawiadau wedi'i gosod allan yn Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 . Rhaid i unrhyw sylwadau llafar fod yn seiliedig naill ai ar y Sylwadau Perthnasol neu'r Sylwadau Ysgrifenedig a wnaed gan y person sy'n gwneud y sylwadau llafar, neu y gwneir y sylwadau llafar ar eu rhan.

Mae'r Awdurdod Archwilio yn gyfrifol am holi'n llafar y person sy'n rhoi tystiolaeth ac mae'r broses yn cynnig cyfle cyfyngedig iawn i ganiatáu croesholi rhwng partïon

Cynhelir ein harchwiliad yn bennaf drwy gyfnewid sylwadau ysgrifenedig, a byddwn yn penderfynu a oes angen gwrandawiad ar fater neu bwnc penodol. Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng y penderfyniad hwn a pha mor berthnasol neu bwysig yr ystyriwn y mater neu bwnc.

## Agendâu gwrandawiadau

Ein nod yw cyhoeddi agenda ddrafft ar gyfer pob gwrandawiad ar dudalen y prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawiad. Mae'n bosibl y bydd yr union agenda ar ddiwrnod pob gwrandawiad yn destun newid yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Archwilio.

## Y Iaith Gymraeg

Mae croeso i chi wneud cyfraniadau llafar yn Gymraeg; bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael yn y gwrandawiadau er mwyn galluogi pobl i wneud hynny. Y fyddwch hefyd yn gallu gwneud sylwadau ysgrifenedig ac yn ymateb i gwestiynau ysgrifenedig yn Gymraeg ar unrhyw adeg yn ystod yr Arholiad.

**Argaeledd sylwadau a dogfennau'r cais**

Mae holl ddogfennau a sylwadau'r cais a gyflwynwyd i'r Archwiliad ar gael i'w gweld ar dudalen y prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ac fe'u rhestrir hefyd yn Llyfrgell yr Archwiliad y gellir dod o hyd iddi ar dudalen we'r prosiect yn:

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/gorsaf-bwer-niwclear-wylfa-newydd/

Er mwyn dod o hyd i gynnwys yn hawdd, rydym yn argymell eich bod yn defnyddio Llyfrgell yr Archwiliad, y ceir mynediad iddi drwy glicio ar y botwm glas o dan y tab 'Dogfennau'. Caiff Llyfrgell yr Archwiliad ei diweddaru'n rheolaidd drwy gydol yr Archwiliad.

Mae Llyfrgell yr Archwiliad yn cofnodi:

- pob dogfen gais;
- yr holl sylwadau a dderbynnir i'w darllen mewn cysylltiad â'r Archwiliad; a
- phob Penderfyniad Gweithdrefnol a wneir gan yr Awdurdod Archwilio.

Mae gan bob dogfen gyfeirnod unigryw a fydd yn sefydlog drwy gydol yr Archwiliad. Rhoddir hyperddolen i bob dogfen ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

Defnyddiwch y cyfeirnodau unigryw a roddir yn Llyfrgell yr Archwiliad wrth gyfeirio at unrhyw ddogfennau'r Archwiliad mewn sylwadau a wnewch.

Hefyd, gellir gweld dogfennau'n electronig yn y lleoliadau canlynol gerllaw safle'r cais, am ddim. Os ydych yn cael anhawster o ran cael mynediad i unrhyw ddogfennaeth, cysylltwch â'r Tîm Achos gan ddefnyddio'r manylion a roddir ar frig y llythyr hwn.

**Lleoliadau Adneuo Electronig:**

| Awdurdod Lleol | Llyfrgell | Oriau Agor |
|---|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | **Llyfrgell Abergele**<br>Stryd y Farchnad<br>Abergele<br>LL22 7BP<br>Ffôn: 01492 577505<br>E-bost:<br>llyfrgell.abergele@conwy.gov.uk | Dydd Llun 09:30-17:00<br>Dydd Mawrth 09:30-13:00<br>Dydd Mercher 13:30-17:00<br>Dydd Iau 09:30-15:00<br>Dydd Gwener 09:30-17:00<br>Dydd Sadwrn 09:30-12:30<br>Dydd Sul Ar Gau |
| | **Llyfrgell Conwy**<br>Y Neuadd Ddinesig<br>Stryd y Castell<br>Conwy<br>LL32 8AY<br>Ffôn: 01492 576089<br>E-bost:<br>llyfrgell.conwy@conwy.gov.uk | Dydd Llun 09:30-17:00<br>Dydd Mawrth 10:00-19:00<br>Dydd Mercher 09:30-12:30<br>Dydd Iau 14:00-17:00<br>Dydd Gwener 09:30-17:00<br>Dydd Sadwrn 09:30-12:30<br>Dydd Sul Ar Gau |

| | | |
|---|---|---|
| | **Llyfrgell Bae Colwyn**<br>Ffordd Coetir Orllewinol<br>Bae Colwyn<br>LL29 7DH<br>Ffôn: 01492 577510<br>E-bost:<br>llyfrgell.baecolwyn@conwy.gov.uk | Dydd Llun 09:00-17:30<br>Dydd Mawrth 10:00-19:00<br>Dydd Mercher 09:00-17:30<br>Dydd Iau 09:00-17:30<br>Dydd Gwener 09:00-17:30<br>Dydd Sadwrn 09:30-15:00<br>Dydd Sul Ar Gau |

| | | |
|---|---|---|
| | **Llyfrgell Llandudno**<br>Stryd Mostyn<br>Llandudno<br>LL30 2RP<br>Ffôn: 01492 574010<br>E-bost:<br>llyfrgell.llandudno@conwy.gov.uk | Dydd Llun 09:00-17:30<br>Dydd Mawrth 09:00-19:30<br>Dydd Mercher 09:00-17:30<br>Dydd Iau 10:00-19:00<br>Dydd Gwener 09:00-17:30<br>Dydd Sadwrn 09:30-15:00<br>Dydd Sul Ar Gau |
| | **Llyfrgell Llanrwst**<br>Plas yn Dre<br>Ffordd yr Orsaf<br>Llanrwst<br>LL26 0DF<br>Ffôn: 01492 577545<br>E-bost:<br>llyfrgell.llanrwst@conwy.gov.uk | Dydd Llun 09:30-17:00<br>Dydd Mawrth 09:30-13:00<br>Dydd Mercher 15:00-19:00<br>Dydd Iau 09:30-17:00<br>Dydd Gwener 09:30-17:00<br>Dydd Sadwrn 09:30-12:30<br>Dydd Sul Ar Gau |
| **Cyngor Gwynedd** | **Llyfrgell Bangor**<br>Ffordd Gwynedd<br>LL57 1DT<br>Ffôn: 01248 353479<br>E-bost:<br>LLBangor@gwynedd.llyw.cymru | Dydd Llun 09:30-18:30<br>Dydd Mawrth 09:30-18:30<br>Dydd Mercher 09:30-17:00<br>Dydd Iau 09:30-17:00<br>Dydd Gwener 09:30-17:00<br>Dydd Sadwrn 09:30-13:00<br>Dydd Sul Ar Gau |
| | **Llyfrgell Bethesda**<br>Ffordd Coetmor<br>Bethesda<br>LL57 3DP<br>Ffôn: 01248 600737<br>E-bost:<br>LLBethesda@gwynedd.llyw.cymru | Dydd Llun 14:00-18:30<br>Dydd Mawrth 10:00-12:00<br>Dydd Mercher Ar Gau<br>Dydd Iau 14:00-18:00<br>Dydd Gwener 14:00-17:00<br>Dydd Sadwrn 10:00-12:30<br>Dydd Sul Ar Gau |
| | **Llyfrgell Blaenau Ffestiniog**<br>Canolfan Maenofferen<br>Blaenau Ffestiniog<br>LL41 3DL<br>Ffôn: 01766 830415<br>E-bost:<br>LLBlaenau@gwynedd.llyw.cymru | Dydd Llun 10:00-13:00 a 14:00-18:00<br>Dydd Mawrth 14:00-17:00<br>Dydd Mercher 10:00-13:00 a 14:00-18:30<br>Dydd Iau Ar Gau<br>Dydd Gwener 10:00-13:00 a 14:00-18:00<br>Dydd Sadwrn 10:00-12:30<br>Dydd Sul Ar Gau |

| | | |
|---|---|---|
| | **Llyfrgell Caernarfon**<br>Lôn Pafiliwn<br>Caernarfon<br>LL55 1AS<br>Ffôn:01286 679465<br>E-bost:<br>LLCaernarfon@gwynedd.llyw.cymru | Dydd Llun 09:30-18:30<br>Dydd Mawrth 09:30-18:30<br>Dydd Mercher 09:30-17:00<br>Dydd Iau 09:30-17:00<br>Dydd Gwener 09:30-17:00<br>Dydd Sadwrn 09:30-13:00<br>Dydd Sul Ar Gau |
| | **Llyfrgell Nefyn**<br>Rhodfa'r Môr<br>Nefyn<br>LL53 6EB<br>Ffôn: 01758 720873<br>E-bost:<br>LLNefyn@gwynedd.llyw.cymru | Dydd Llun 14:00-18:30<br>Dydd Mawrth 10:00-12:30<br>Dydd Mercher 14:00-18:00<br>Dydd Iau Ar Gau<br>Dydd Gwener 14:00-17:00<br>Dydd Sadwrn Ar Gau<br>Dydd Sul Ar Gau |
| | **Llyfrgell Penygroes**<br>Canolfan Dechnoleg Dyffryn Nantlle<br>Heol y Dŵr<br>Penygroes<br>LL54 6LR<br>Ffôn: 01286 880427<br>E-bost:<br>LLPenygroes@gwynedd.llyw.cymru | Dydd Llun 13:00-17:00<br>Dydd Mawrth 10:00-12:00<br>Dydd Mercher 13:00-17:00<br>Dydd Iau Ar Gau<br>Dydd Gwener 13:00-17:00<br>Dydd Sadwrn 10:00-12:00<br>Dydd Sul Ar Gau |
| | **Llyfrgell Porthmadog**<br>Canolfan Byw'n Iach a Llyfrgell Glaslyn<br>Stryd y Llan<br>Porthmadog<br>LL49 9HW<br>Ffôn: 01766 514091<br>E-bost:<br>LLPorthmadog@gwynedd.llyw.cymru | Dydd Llun 10:00-18:30<br>Dydd Mawrth 10:00-18:00<br>Dydd Mercher 10:00-18:00<br>Dydd Iau 10:00-13:00<br>Dydd Gwener 10:00-17:00<br>Dydd Sadwrn 10:00-12:30<br>Dydd Sul Ar Gau |
| | **Llyfrgell Cricieth**<br>Llyfrgell Cricieth<br>Canolfan Encil y Coed<br>Stryd Fawr, Cricieth<br>LL52 0RN<br>Ffôn: (01766) 522256<br>E-bost:<br>LLCriccieth@gwynedd.llyw.cymru | Dydd Llun: AR GAU<br>Dydd Mawrth: AR GAU<br>Dydd Mercher: 14:00 - 18:00<br>Dydd Iau: 10:00-12:00, 14:00-18:00<br>Dydd Gwener: 14:00 - 18:00<br>Dydd Sadwrn: AR GAU<br>Dydd Sul: AR GAU |

| | | |
|---|---|---|
| | **Llyfrgell Pwllheli**<br>Llyfrgell Pwllheli<br>Neuadd Dwyfor<br>Stryd Penlan<br>Pwllheli<br>LL53 5DE<br>Ffôn: (01758) 612089<br>E-bost:<br>LLPwllheli@gwynedd.llyw.cymru | Dydd Llun: 10:00 - 18:00<br>Dydd Mawrth: 10:00 - 13:00<br>Dydd Mercher: 10:00 - 17:00<br>Dydd Iau: 10:00 - 13:00<br>Dydd Gwener: 10:00 - 17:00<br>Dydd Sadwrn: 10:00 - 13:00<br>Dydd Sul: AR GAU |
| **Llyfrgelloedd Cyngor Sir Ynys Môn** | **Llyfrgell Llangefni**<br>Lôn y Felin<br>Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL77 7RT<br>Ffôn: 01248 752095<br>E-bost (pob Llyfrgell):<br>llyfrgelloedd@ynysmon.gov.uk | **Oriau Agor**<br>Dydd Llun: 9:00-19:00<br>Dydd Mawrth: 9:00-17:00<br>Dydd Mercher: 9:00-13:00<br>Dydd Iau: 9:00-18:00<br>Dydd Gwener: 9:00-19:00<br>Dydd Sadwrn: 9:30-12:30<br>Dydd Sul: Ar Gau |
| | **Llyfrgell Amlwch**<br>Lôn Parys<br>Amlwch<br>Ynys Môn<br>LL68 9AB<br>Ffôn: 01407 830145 | **Oriau Agor**<br>Dydd Llun: Ar Gau<br>Dydd Mawrth: 9:30-12:30 a 14:00 – 17:00<br>Dydd Mercher: 9:30-12:30<br>Dydd Iau: 14:00-19:00<br>Dydd Gwener: 9:30-12:30<br>Dydd Sadwrn: 9:30-12:30<br>Dydd Sul: Ar Gau |
| | **Llyfrgell Biwmares**<br>Lôn yr Ysgol Ramadeg<br>Biwmares<br>Ynys Môn<br>LL58 8AL<br>Ffôn: 01248 810659 | **Oriau Agor**<br>Dydd Llun: 14:30-18:00<br>Dydd Mawrth: Ar Gau<br>Dydd Mercher: 10:00-12:30<br>Dydd Iau: Ar Gau<br>Dydd Gwener: 9:00-13:00<br>Dydd Sadwrn: Ar Gau<br>Dydd Sul: Ar Gau |
| | **Llyfrgell Benllech**<br>Min-Yr-Afon<br>Benllech<br>Tyn-y-Gongl<br>Ynys Môn<br>LL74 8UG<br>Ffôn: (01248) 852348<br>E-bost: dcxlh@ynysmon.gov.uk | **Oriau Agor**<br>Dydd Llun: 17:00-19:00<br>Dydd Mawrth: 14:00-17:00<br>Dydd Mercher: 10:00-12:00 a 14:00-16:00<br>Dydd Iau: Ar Gau<br>Dydd Gwener: 14:00-19:00<br>Dydd Sadwrn: 10:00-12:30<br>Dydd Sul: Ar Gau |

| | | |
|---|---|---|
| | **Llyfrgell Cemaes**<br>Lôn Glascoed<br>Bae Cemaes<br>Ynys Môn<br>LL67 0NN<br>Ffôn: 01407 711025<br>E-bost: kcxlh@ynysmon.gov.uk | **Oriau Agor**<br>Dydd Llun: 14:00-18:00<br>Dydd Mawrth: Ar Gau<br>Dydd Mercher: 09:30-12:30<br>Dydd Iau: Ar Gau<br>Dydd Gwener: 14:00-18:00<br>Dydd Sadwrn: Ar Gau<br>Dydd Sul: Ar Gau |
| | **Llyfrgell Caergybi**<br>Newry Fields<br>Caergybi<br>Ynys Môn<br>LL65 1LA<br>Ffôn: 01407 762917<br>E-bost: kpxlh@ynysmon.gov.uk | **Oriau Agor**<br>Dydd Llun: 09:30-18:00<br>Dydd Mawrth: 09:30-18:00<br>Dydd Mercher: 09:30-13:00<br>Dydd Iau: 09:30-18:00<br>Dydd Gwener: 09:30-18:00<br>Dydd Sadwrn: 09:30-12:30<br>Dydd Sul: Ar Gau |
| | **Llyfrgell Porthaethwy**<br>Wood St<br>Porthaethwy<br>Ynys Môn<br>LL59 5AS<br>Ffôn: 01248 712706<br>E-bost: dbxlh@ynysmon.gov.uk | **Oriau Agor**<br>Dydd Llun: Ar Gau<br>Dydd Mawrth: 13:00-18:00<br>Dydd Mercher: 09:30-12:30<br>Dydd Iau: 13:00-18:00<br>Dydd Gwener: 13:00-17:00<br>Dydd Sadwrn: 09:30-12:30<br>Dydd Sul: Ar Gau |
| | **Llyfrgell Rhosneigr**<br>Stryd Fawr<br>Rhosneigr<br>Ynys Môn<br>LL64 5UX<br>Ffôn: 01407 811293<br>E-bost: kdxlh@ynysmon.gov.uk | **Oriau Agor**<br>Dydd Llun: 15:30-18:00<br>Dydd Mawrth: Ar Gau<br>Dydd Mercher: 14:00-16:30<br>Dydd Iau: C10:00-12:30<br>Dydd Gwener: Ar Gau<br>Dydd Sadwrn: 10:00-13:00<br>Dydd Sul: Ar Gau |
| | **Cyngor Sir Ynys Môn**<br>Canolfan Busnes Môn<br>Parc Busnes Bryn Cefni<br>Llangefni<br>Ynys Môn / Anglesey<br>LL77 7XA<br>Ffôn: 01248 752480<br>E-bost:<br>econdev@ynysmon.gov.uk | **Oriau Agor**<br>Dydd Llun: 08:45-17:00<br>Dydd Mawrth: 08:45-17:00<br>Dydd Mercher: 08:45-17:00<br>Dydd Iau: 08:45-17:00<br>Dydd Gwener: 08:45-17:00<br>Dydd Sadwrn: Ar Gau<br>Dydd Sul: Ar Gau |
| **Costau Argraffu** | **Du a Gwyn** | **Lliw** |

| | | |
|---|---|---|
| **A4** | Conwy: 15c<br>Gwynedd: 10c<br>Ynys Môn: 15c | Conwy: 60c<br>Gwynedd: 50c<br>Ynys Môn: Heb fod ar gael |
| **A3** | Conwy: 60c<br>Gwynedd: 20c<br>Ynys Môn: Heb fod ar gael | Conwy: £1<br>Gwynedd: £1<br>Ynys Môn: Heb fod ar gael |

| |
|---|
| **Dolen i holl lyfrgelloedd y cynghorau:**<br><br>http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Libraries-Museums-and-Archives/Libraries/Libraries-and-opening-times/Libraries-and-Opening-Times.aspx<br><br>https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Llyfrgelloedd-ac-archifau/Llyfrgelloedd-ac-archifau.aspx<br><br>http://www.ynysmon.gov.uk/hamdden/llyfrgelloedd/llyfrgelloedd-fy-llyfrgell-leol |
| **E-bost:**<br><br>llyfrgell.conwy@conwy.gov.uk<br><br>niagruffydd@gwynedd.llyw.cymru<br><br>llyfrgelloedd@ynysmon.gov.uk |

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

National Infrastructure Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Customer Services: 0303 444 5000
e-mail: Wylfa@pins.gsi.gov.uk

To Interested Parties, Statutory Parties and Other Persons invited to the Preliminary Meeting

Your Ref:

Our Ref: EN010007

Date: 6 November 2018

Dear Sir/ Madam

**The Planning Act 2008 – Section 89 and The Infrastructure Planning (Examination Procedure) Rules 2010 – Rule 8**

